

# Canllawiau ar gyfer grwpiau addysg

**Cyfrifoldeb yr athrawon a'r oedolion sydd gyda'r grŵp yw ymddygiad pob disgybl sy'n ymweld ag Amgueddfa Cymru. Mae gwybodaeth ac adnoddau ar ein gwefan. Rhannwch eich cynllun ar gyfer yr ymweliad gyda phob oedolyn sy'n dod fel y gallan nhw gynorthwyo eich disgyblion yn well.**

Gofynnir bod y disgyblion yn cael eu goruchwyllo a bod pob grŵp addysg yn dilyn isafswm y cyfraddau staff/disgyblion canlynol:

- Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 2 (rhwng 3 a 7 oed): 1 oedolyn cyfrifol: 5 plentyn
- Blynyddoedd 3 - 6 (rhwng 7 a 11 oed): 1 oedolyn cyfrifol: 10 plentyn
- Blwyddyn 7 ymlaen (11+ oed): 1 oedolyn cyfrifol: 15 plentyn

Dylai arweinwyr y grŵp asesu'r risgiau ac ystyried lefel goruchwyllo diogel sy'n addas ar gyfer ei grŵp.

**Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael ymweliad diogel ac yn mwynhau, gofynnwn i bob grŵp:**

- Cyrraedd yr Amgueddfa neu'r gweithdy ar yr amser cywir a neilltuwyd – gwiriwch y neges cadarnhau archeb cyn eich ymweliad, a fydd yn cynnwys yr amserlen a gwybodaeth berthnasol arall.

# Canllawiau ar gyfer grwpiau addysg

**Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael ymweliad diogel ac yn mwynhau, gofynnwn i bob grŵp:**

- Gwrando a dilyn cyfarwyddiadau.
- Trin staff, gwirfoddolwyr, ac ymwelwyr eraill gyda pharch.
- Peidio â defnyddio iaith ddifriol, fygythiol ac/neu iaith neu ymddygiad amharchus.
- Gadael unrhyw ofod rydych chi'n eu defnyddio fel y byddech chi'n dymuno eu gweld wrth gyrraedd.
- Defnyddio'r ystafell frechdanau yn ystod eich slot amser penodol a mynd â'ch sbwriel gyda chi.
- Peidio â defnyddio ffonau symudol yn ystod gweithdai.
- Defnyddio'r biniau ailgylchu priodol a mynd ag unrhyw wastraff bwyd gyda chi.
- Gadael cotiau a bagiau yn y cyfleusterau sydd ar gael.
- Parchu'r arddangosfeydd; mae hyn yn golygu peidio cyffwrdd sbesimenau, gwrthrychau neu waith celf.
- Peidio â chyffwrdd na bwydo'r anifeiliaid ar y fferm, oni bai eich bod wedi cael caniatâd i wneud. Sicrhewch eich bod yn golchi eich dwylo ar ôl ymweld â'r fferm.
- Mae safle'r Amgueddfa yn fawr ac yn cynnwys sawl ardal all fod yn beryglus i blant, e.e. dŵr agored. Mae'n bwysig nad yw'r athrawon/oedolion cyfrifol yn gadael y disgyblion heb wylidwriaeth yn ystod yr ymweliad.
- Peidio â bwyta neu yfed yn yr adeiladau hanesyddol a'r orielau.

# Canllawiau ar gyfer grwpiau addysg

## Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael ymweliad diogel ac yn mwynhau, gofynnwn i bob grŵp:

- Mae'n bosibl na chaniateir grwpiau yn yr adeiladau hanesyddol, os nad yw'r gyfradd oruchwylio berthnasol yn cael ei dilyn.
- Peidio ag yfed alcohol, defnyddio sylweddau, fêpio neu ysmegu ar y safle.
- Adrodd unrhyw bryderon i aelod o staff yr Amgueddfa.

Mae gan ein staff bob hawl i stopio'r gweithdy neu ofyn i grŵp adael os nad ydyn nhw ac/neu adnoddau ein hamgueddfa yn cael eu trin gyda pharch.

Cyfrifoldeb yr ysgol/sefydliad addysg yw cwblhau unrhyw asesiadau risg ar gyfer eich ymweliad â'r Amgueddfa. Mae gwybodaeth iechyd a diogelwch ar gael [fan hyn](#).

## Diolch yn fawr